# Taflen Cynllunio Gwers

| | |
|---|---|
| **Blwyddyn / CA:** | Awgrym Blwyddyn: Bl9 [Y mae deunydd ar gyfer 2 wers (awr yr un ) yma. Dyma gynllun gwers 1 ar gyfer set 3] |

| | |
|---|---|
| **Nod y wers:** | Edrych ar ffyrdd o ymateb i destun ( perswadio) / Ymateb i destun pytiog. |
| **FfLlRhC a Rhaglenni Astudio CA3:** | Siarad: cyflwyno materion yn llawn argyhoeddiad / ymateb i adwaith gwrandawyr/ cynnal dadl argyhoeddiedig drwy chwarae rôl. Gwrando: ystyried perthnasedd ac arwyddocad gwybodaeth a syniadau/ gwrando ar wybodaeth a syniadau ac adnabod sut maent yn cael eu defnyddio. Darllen: strategaeth rhagfynegi/ **adnabod a deall nodweddion testun/** cymharu a chyferbynnu / cyfuno a dadansoddi gwybodaeth/ gwahaniaethu rhwng ffeithiau a barn/ **ystyried sut mae testunau'n cael eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau a dadansoddi eu diben** |

| **Camau'r wers:** | |
|---|---|
| **Dysgu: Beth fydd y dysgwyr yn ei wneud?** | **Addysgu: Beth fydd yr athro yn ei wneud?** |
| Gwylio a gwrando ar fideo: RSPCA Advert- Home for Life TV ADV<br>Ymateb i gwestiynau'r athro | Cyflwyno'r fideo<br>Cwestiynu:<br>• Sut mae'r fideo'n gwneud i chi deimlo?<br>• Mewn oes lle mae arian yn brin, her yr RSPCA yw perswadio pobl i roi arian iddynt?<br>• Os ydyn nhw wedi llwyddo ar fideo ydyn nhw yr un mor llwyddiannus ar bapur – yn eu taflenni ddaw i'n cartrefi ni?<br>Dyna nod y wers, mesur a phwyso'r taflenni hyn a dulliau perswadio.<br>Fe fyddwch chi erbyn diwedd y wers yn gallu adnabod rhai technegau perswadio mewn testun.<br>Cyn hyn, mae angen edrych ar eich sgiliau perswadio chi. |
| **Datblygu'r wers:** | |
| 1. Gweler gweithgareddau tasgau 1 a 2<br>2. Gweler gweithgareddau tasgau 5 / 3 / 6 | 1. Cyflwyno tasg lafar (Tasgau 1 a 2 - gweler nodiadau)<br>2. Cyflwyno tasgau 5 / 3 / 6 - gweler nodiadau |
| **Clo y wers:** | |
| Ymateb i'r cwestiynau | Cwestiynu – gweler nodiadau myfyrio tasg 1 a 2<br><br>Beth ydi'r peth pwysicaf ydych chi wedi'i ddysgu heddiw wrth edrych ar bamffled sy'n gofyn am gymorth ariannol . . . y llun / y wybodaeth . . . ? |
| **Adnoddau:** | |
| Fideo RSPCA<br>Powerpoint<br>Taflenni | |
| **Deilliannau Dysgu:** | |
| Gwneud cynnydd yn eu gallu i adnabod nodweddion testun sy'n perswadio a mynegi barn ar effeithiolrwydd y testun hwnnw. | |

GwE

YSGOL BOTWNNOG

YSGOL DYFFRYN OGWEN

Ysgol Tryfan

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government